# Canllawiau Connector 2021

Cynnwys

**Beth yw cronfa Connector?** ..... 2
**Y cyllid sydd ar gael a llinell amser cyflwyno cais** ..... 3
**Pwy all ymgeisio?** ..... 3
**Am beth rydym ni'n chwilio?** ..... 4
**Meysydd sgiliau** ..... 5
**Cyfranogwyr targed** ..... 6
**Mathau o weithgaredd** ..... 6
**Yr hyn nad ydym yn ei ariannu** ..... 7
**Sut ydw i'n ymgeisio?** ..... 7
**1. Datganiad o Ddiddordeb** ..... 7
**2. Cyflwyno Cais** ..... 9
**Canllawiau cyllidebol ar gyfer eich cais** ..... 10
**Mynediad a chynhwysiant** ..... 11
**Gwrth-fwlio, aflonyddu ac atal hiliaeth** ..... 11
**Cynaliadwyedd amgylcheddol** ..... 11
**Llinell amser ymgeisio** ..... 11
**Asesiad ac adborth** ..... 12
**Beth sy'n digwydd os byddaf yn derbyn yr arian?** ..... 13
**Llythyr o gynnig** ..... 14
**Cytundeb Ariannu** ..... 14
**Manylion cyswllt** ..... 15
***Atodiad - Arian Loteri CBC Ffilm Cymru Wales - Telerau Busnes Safonol*** ..... 16

# Cyflwyniad

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm yng Nghymru. Mae hefyd yn bartner cyflwyno cenedlaethol RHWYDWAITH y BFI. Trwy gyllid y Loteri Genedlaethol, mae RHWYDWAITH y BFI yn dod ag asiantaethau ffilm o bob rhan o'r DU ynghyd i ddarganfod, i ddatblygu ac i ariannu awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae ein gweithgaredd RHWYDWAITH y BFI Cymru yn cefnogi gwneuthurwyr ffilm ar y lefel hon sydd wedi eu geni neu eu lleoli yng Nghymru.

## Beth yw cronfa Connector?

Mae cronfa Connector yn cefnogi unigolion neu sefydliadau i ddarparu hyfforddiant, rhwydweithio, ymchwil ac adnoddau penodol sydd o fudd i'r dalent sy'n bodoli yn y byd gwneud ffilmiau nad yw'n cael ei gynrychioli'n ddigonol yng Nghymru.

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau mae Connector wedi'u cefnogi o'r blaen:

- Cinema Golau – llwyfan i gefnogi gwneuthurwyr ffilm newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n cael eu tangynrychioli o ran hil ac ethnigrwydd drwy gynnig dangosiadau, gweithdai a digwyddiadau gŵyl
- Hyfforddiant a sut i gynhyrchu ffilmiau byr i wneuthurwyr ffilm ac actorion niwroamrywiol, ar y cyd â Theatr Hijinx & 104 Films
- Lab Awduron y DU & Iwerddon – cyfres o weithdai cyfoed-i-gyfoed, ac wedi eu harwain gan fentoriaid, ar ddatblygu sgript, ar gyfer menywod ac awduron sy'n uniaethu'n anneuaidd ac sydd dros 40 oed
- The Great Lesbian Escape – sesiynau ymchwil ffilm a'r diwydiant sy'n archwilio straeon lesbiaid a menywod deurywiol ar ffilm
- Tuag at y Drafft Cyntaf - cwrs sgriptio dwyieithog yng Ngogledd Cymru

- Rhywdweithio ar gyfer darpar wneuthurwyr ffilmiau wedi eu hanimeiddio, ar y cŷd â Gŵyl Animeiddio Caerdydd
- Siop Doc Un Stop - cyfres o adnoddau ar-lein i annog a chefnogi amrywiaeth cynhwysol o fenywod a gwneuthurwyr ffilmiau dogfen nad ydynt yn ddeuaidd
- Lab FireParty - hyfforddiant a mentoriaeth i gefnogi llesiant gwneuthurwyr ffilm yn ystod creisis Covid-19

Mae rhagor o wybodaeth am brosiectau sydd wedi derbyn cefnogaeth yn y gorffennol ar gael ar wefan Ffilm Cymru.

### Y cyllid sydd ar gael a llinell amser cyflwyno cais

Mae uchafswm o £27,000 ar gael drwy gronfa Connector yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 (hyd at Mawrth 2022). Rydym yn disgwyl y byddwn yn cyflwyno 5-6 o ddyfarniadau. Uchaswm y dyfarniad sydd ar gael yw £6,000.

Mae Ffilm Cymru yn gwahodd ceisiadau ar sail dreigl nes bod yr holl arian wedi ei ddyfarnu. Gellir cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb ar unrhyw adeg. Rydym yn argymell eich bod yn caniatáu o leiaf 12 wythnos o'r amser i chi gysylltu â ni'r tro cyntaf ar gyfer cwblhau'r broses ymgeisio, ac i dderbyn hysbysiad yn nodi os yw eich prosiect wedi derbyn cyllid ai pheidio.

## Pwy all ymgeisio?

Gallwch ymgeisio am arian o gronfa Connector os:

- Rydych chi'n unigolyn neu'n sefydliad sydd â hanes da yn y diwydiannau creadigol, ac yn ddelfrydol yn berchen ar sylfaen yng Nghymru, neu'n bartner â sefydliad yng Nghymru;
- Rydych chi dros 18 oed ac heb fod mewn addysg llawn amser;

- Chi yw, neu chi fydd yn arwain ar y prosiect a ddisgrifir.

Gallwn ystyried cynigion gan gwmnïau cyfyngedig neu gan weithwyr proffesiynol unigol (e.e. unig fasnachwyr / gweithwyr llawrydd sydd â hanes da yn y diwydiannau creadigol).

Mae unigolion neu sefydliadau sydd wedi derbyn cyllid Connector o'r blaen yn gymwys i wneud cais, ar yr amod eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau adrodd ar gontract a chyflawni eu rhywmedigaethau trosglwyddo, ac wedi egluro sut mae'r prosiect blaenorol wedi dylanwadu ar y strategaeth ar gyfer y cynnig newydd, neu’r cynnig parhaus, ar gyfer y prosiect.

Rydym yn croesawu ceisiadau ar y cŷd ar gyfer Connector. Mae hyn yn arbennig o werthfawr ble rydym yn chwilio am dimau sy'n dangos y canlynol: mynediad at rwydweithiau o bobl greadigol nad ydynt yn cael eu cynrychioli’n ddigonol yng Nghymru; dealltwriaeth o'r sector ffilm annibynnol, ac o'r camau ymarferol y mae'n rhaid i wneuthurwr ffilm eu cymryd er mwyn creu gyrfa gynaliadwy mewn ffilm; rheoli a hyfforddi prosiectau, cyflwyno digwyddiadau a / neu brofiad ymchwil.

Ble mae ceisiadau'n canolbwyntio ar grŵp neu grwpiau penodol nad ydynt yn cael eu cynrychioli’n ddigonol, rydym yn arbennig o awyddus i weld timau sy'n cynnwys rolau arweiniol (â thâl) ar gyfer unigolion sydd â phrofiad bywyd perthnasol yn y gwaith o ddylunio a chyflwyno.

## Am beth rydym ni’n chwilio?

Dylai holl weithgaredd Connector ganolbwyntio ar gefnogi ysgrifenwyr sgrîn, cyfarwyddwyr a / neu gynhyrchwyr uchelgeisiol, newydd neu sy'n dod i'r amlwg (sy'n golygu'r rhai nad ydynt hyd yma wedi cael ffilm nodwedd wedi'i chynhyrchu ac sy'n cael ei

dosbarthu'n fasnachol yn y DU), a dylent gynnig cefnogaeth ymarferol ac ysbrydoledig i ddatblygiad gyrfa'r cyfranogwyr. Dylai ymgeiswyr ddangos sut y bydd eu prosiect o fudd i wneuthurwyr ffilm o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant ffilm ar hyn o bryd, a sut y byddant yn cael mynediad at eu cyfranogwyr targed yng Nghymru.

## Meysydd sgiliau

Ar hyn o bryd rydym yn awyddus i gefnogi gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar y meysydd isod, sydd wedi eu hysbysu gan ein gwaith ledled y diwydiant yng Nghymru a'r data rydym yn ei gasglu'n rheolaidd:

- Datblygu cynhyrchwyr ffilm, yn enwedig annog cynhyrchwyr ac unigolion newydd sy'n berchen ar sgiliau trosglwyddadwy;
- Datblygu cyfarwyddwyr ffilm gan bontio ffurfiau celfyddydol eraill, neu o swyddogaethau eraill ym maes ffilm neu deledu;
- Datblygu awduron sgrîn sy'n gweithio ar lefel ffilmiau nodwedd, wedi ei dargedu at bontio rhwng ffilmiau celfyddydol eraill i fyd ffilm;
- Pontio'r bwlch rhwng animeiddwyr a chynhyrchwyr ffilmiau wedi eu hanimeiddio sy'n gweithio mewn cyfryngau eraill, a ffilmiau nodwedd wedi eu hanimeiddio;
- Cefnogi datblygiad cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr dogfen, yn enwedig ym maes materion busnes;
- Meithrin cyd-weithio rhwng gwneuthurwyr ffilm a ffurfiau celfyddydol neu dechnolegol eraill;
- Hyfforddiant mewn sgiliau meddal fel pitsio, cyflwyno a thrafod telerau;
- Archwilio arferion cynhwysol wrth wneud ffilm;
- Arweiniad neu gefnogaeth ar gyfer llesiant.

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau sy'n canolbwyntio ar fylchau eraill mewn sgiliau, allai fod yn seiliedig ar ymwybyddiaeth a

thystiolaeth yr ymgeisydd o alw penodol nad yw'n cael ei wasanaethu'n ddigonol yng Nghymru ar hyn o bryd.

## Cyfranogwyr targed

Dylai ymgeiswyr ymgyfarwyddo â Safonau Amrywiaeth y BFI a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) Ffilm Cymru, sy'n gosod targedau yn erbyn ystadegau'r sensws ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, efallai bydd ymgeiswyr yn dewis canolbwyntio ar un maes amrywiaeth yn unig.

Ar hyn o bryd 'rydym yn arbennig o awyddus i dderbyn ceisiadau fydd o fantais i unigolion sy'n nodi eu bod yn perthyn i hil neu ethnigrwydd nad yw'n cael ei gynrychioli'n ddigonol, neu fel B/byddar, niwroamrywiol, neu'n dod o gefndir cymdeithasol-economaidd dan anfantais. Gall y blaenoriaethau yma newid yn y dyfodol, yn seiliedig ar ddata a gesglir yn rheolaidd gan Ffilm Cymru, ac ar yr amrywiaeth o brosiectau Connector rydym wedi eu cefnogi o'r blaen.

Dylai pob gweithgaredd anelu at gefnogi / cyrraedd lleiafswm o 30 o gyfranogwyr, oni bai eu bod yn cynnwys y math o ddatblygiad dwys a allai weithio'n well mewn grwpiau llai.

## Mathau o weithgaredd

Gall y gweithgaredd Connector yr ydym yn ei gefnogi gymryd sawl ffurf gwahanol. Fodd bynnag, dylai fod gan pob prosiect nodau a mesurau llwyddiant sydd wedi'u diffinio'n glir, a dylent gynnig cyfle i wneuthurwyr ffilm rwydweithio, rhannu dysgu gyda chyfoedion a / neu elwa o gyngor mentoriaid neu arbenigwyr y diwydiant.

Gellir cyflwyno gweithgaredd ar-lein, yn bersonol, neu fel cyfuniad o'r ddau. Oherwydd effaith barhaus Covid-19, bydd yn ofynnol i unigolion neu sefydliadau y dyfernir cyllid iddynt ddangos tystiolaeth o fesurau cynllunio ac asesiadau risg pwrpasol ar gyfer unrhyw

weithgaredd fydd yn digwydd wyneb yn wyneb, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau diweddaraf y llywodraeth.

Er y byddwn weithiau'n cefnogi digwyddiadau unigol (one-off) a all ddangos effaith sylweddol, rydym yn annog pob ymgeisydd i ystyried cynaliadwyedd y gefnogaeth y byddant yn ei darparu, p'un ai drwy rwydweithio mwy anffurfiol gydol y flwyddyn, neu ddatblygu partneriaethau parhaus, neu ddatblygu presenoldeb dda ar-lein sy’n berchen ar adnoddau defnyddiol.

Dylai prosiectau ymchwil gynnwys rhyw fath o adnodd fydd ar gael fel canlyniad, e.e. adroddiad ar-lein neu becyn cymorth.

### Yr hyn nad ydym yn ei ariannu

Yn anffodus, ni allwn gefnogi’r canlynol drwy’r gronfa hon:

- Gweithgaredd sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gynulleidfaoedd yn hytrach na gwneuthurwyr ffilm;
- Gweithgaredd sydd o fudd yn bennaf i unigolion o dan 18 oed neu sydd mewn addysg llawn amser;
- Gweithgaredd sy'n gwasanaethu gwneuthurwyr ffilm o'r tu allan i Gymru yn bennaf.

Os y gwelwch nad ydych yn cwrdd â'r holl feini prawf cymhwyso, cyfeiriwch at ein cyllid  ar gyfer Sinemâu, Gwyliau Ffilm & Digwyddiadau Un-nos ac Addysg Ffilm, rhag ofn bod y rhain yn fwy addas i'ch anghenion.

## Sut ydw i’n ymgeisio?

### 1. Datganiad o Ddiddordeb

Y cam cyntaf yw cysylltu â Ffilm Cymru ar network@ffilmcymruwales.com er mwyn mynegi eich diddordeb

mewn ymgeisio. Gallwch hefyd ein ffonio ar 07932 738434 os oes well gennych gael sgwrs â rhywun.

Pan fyddwch yn cysylltu â ni dylech ddarparu amlinelliad bras o'ch prosiect gan gynnwys:

- Chi / eich sefydliad ac unrhyw bartneriaid yr ydych yn gobeithio gweithio â nhw
- Nodau a thargedau cyffredinol y cyfranogwyr
- Math(au) o weithgaredd a throsolwg o'r cynnwys arfaethedig
- Swm yr arian rydych yn chwilio amdano o gronfa Connector

Rhowch wybod i ni hefyd am unrhyw anghenion o ran mynediad, er enghraifft os ydych chi neu un o'ch tîm prosiect craidd yn F / fyddar, â nam ar eich clyw, yn anabl, yn niwroamrywiol neu â nam ar y golwg. Fel hyn, gallwn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn ystod y broses ymgeisio.

Gall addasiadau rhesymol fod ar ffurf dulliau amgen o gyflwyno gwybodaeth (e.e. trwy'r post, Zoom, fideo byr neu ddec sleidiau). Gallwn hefyd dalu rhai costau ariannol, fel sicrhau dehonglydd BSL ar gyfer ein cyfarfodydd, neu gymorth i ymgeiswyr dyslecsig wrth ysgrifennu. Fodd bynnag, nodwch na allwn dalu costau mynediad ble mae nawdd arall eisoes ar gael e.e. cefnogaeth Mynediad at Waith. Ni allwn chwaith dalu am brynu caledwedd neu feddalwedd.

Unwaith i ni dderbyn eich datganiad o ddiddordeb, bydd Ffilm Cymru yn cysylltu â chi i drefnu cyfarfod neu alwad ffôn i drafod eich prosiect. Efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth ar y cam hwn i gael syniad os yw'r cais yn cwrdd ag amcanion cronfa Connector.

Yna bydd Ffilm Cymru yn cadarnhau a ydych wedi cael gwahoddiad i gyflwyno'ch cais ai pheidio. Byddwn yn anelu at wneud hynny o fewn

4 wythnos o dderbyn y datganiad o ddiddordeb cychwynnol. Fodd bynnag, nodwch y gall yr amser y mae'n ei gymryd i chi ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani effeithio ar y llinell amser yma.

## 2. Cyflwyno Cais

Os gwahoddir chi i wneud cais, byddwn yn anfon ffurflen gais atoch i'w chwblhau. Bydd y tîm yn gallu siarad â chi am yr hyn sy'n ofynnol ym mhob rhan o'r ffurflen. Gwneir addasiadau rhesymol i ymgeiswyr ag anghenion mynediad - gweler uchod.

Dylid cwblhau'r ffurflen gais a'i chyflwyno drwy e-bost at network@ffilmcymruwales.com, ynghyd â'r deunyddiau ategol canlynol wedi eu cyflwyno fel dolen storio ar-lein (e.e. Google Drive, Dropbox) o fewn y ffurflen gais:

- CVs ar gyfer yr ymgeisydd(wyr) a staff arfaethedig y prosiect
- Bywgraffiadau'r sefydliad sy'n ymgeisio yn ogystal ag unrhyw sefydliadau partner eraill (os yn berthnasol)

Dim ond trwy'r broses ymgeisio ffurfiol y gall Ffilm Cymru ystyried prosiectau sydd wedi'u cyflwyno inni. Mae hyn yn golygu na allwn dderbyn na darllen cyflwyniadau na deunyddiau cais anffurfiol, anghyflawn neu rhai digymell.

Ar ôl cyflwyno'ch cais byddwch yn derbyn dolen ar-lein ar gyfer llenwi ffurflenni monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer arweinwyr y prosiect. Cesglir y data yn ddienw ac fe'i defnyddir yn unig  ar gyfer cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, wrth hyrwyddo ein Cynllun Gweithredu EDI, ac i adrodd i'n rhanddeiliaid ble mae hwn yn ofyniad cytundebol.

Dim ond pan fydd yr holl eitemau y gofynnwyd amdanynt wedi'u danfon y bydd eich cais yn cael ei ystyried yn gyflawn..

## Canllawiau cyllidebol ar gyfer eich cais

Cadwch y canlynol mewn cof:

- Gallwn ariannu hyd at 100% o gostau eich prosiect hyd at uchafswm o £6,000.
- Ni all Ffilm Cymru roi arian yn ôl-weithredol (h.y. ar gyfer prosiect neu ddigwyddiad sydd eisoes wedi ei gynnal, neu a fydd yn cael ei gynnal cyn i ni ymrwymo i gytundeb cyllido gyda chi).
- Dylai pob eitem llinell sydd wedi'i chyllidebu fod yn rhesymol (e.e. ni allwn dalu costau teithio neu lety o'r radd flaenaf).
- RHAID i bob gweithiwr llawrydd a rheolwr prosiect sy'n gysylltiedig â'r prosiect dderbyn Cyflog Byw, o leiaf, am eu hamser, oni bai bod sefydliad partner wedi cynnig adnoddau o ran staff i chi fel cyfraniad mewn da.
- Rhowch gymaint o fanylion â phosibl wrth ddadansoddi eich cyllideb arfaethedig. Er ein bod yn deall y gall y gyllideb fod yn ddangosol ar hyn o bryd, mae'n bwysig inni wybod eich bod wedi meddwl am ddichonoldeb y prosiect.
- Nid oes angen i chi ddyrannu ffigyrau yn erbyn pob eitem llinell yn nhempled y gyllideb. Darperir y rhain fel arwydd o'r costau y gallwch wneud cais amdanynt.
- Fel rheol byddwn yn disgwyl gweld elfennau o gyllid partneriaeth fel cyfraniad arian parod a / neu mewn da.
- Os ydych chi'n bwriadu codi ffioedd cyfranogwyr, rydym yn argymell eich bod yn cadw'r rhain mor isel â phosib. Lle gallai ffioedd fod yn rhwystr ariannol, rydym yn annog ymgeiswyr yn gryf i sicrhau bod nifer priodol o fwrsariaethau ar gael.
- Rhaid i’r holl gostau cyllidebol gynnwys TAW.

## Mynediad a chynhwysiant

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod eu prosiect mor gynhwysol â phosibl. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, llogi lleoliadau hygyrch, darparu capsiynau ar gyfer digwyddiadau ar-lein, yn ogystal ag ystyried anghenion mynediad unigol.

Rydym yn diffinio anghenion mynediad unigol fel cymorth penodol sy'n ofynnol gan bobl B / byddar, sydd â nam ar eu clyw, yn anabl, yn niwroamrywiol neu sydd â nam ar eu golwg. Er enghraifft, gallai hyn fod yn ddehonglydd BSL, costau cludiant neu lety ychwanegol i berson anabl, neu'n gynorthwy-ydd personol i berson sydd ag anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl.

### Gwrth-fwlio, aflonyddu ac atal hiliaeth

Sylwch y bydd yn ofynnol i brosiectau a ariennir drwy gronfa Connector gadw at, a hyrwyddo'r set o egwyddorion sy'n mynd i'r afael ag atal bwlio, aflonyddu a hiliaeth yn y diwydiannau sgrîn a'r canllawiau cysylltiedig a gomisiynwyd gan y BFI. Mae'r rhain ar gael ar wefan y BFI.

### Cynaliadwyedd amgylcheddol

Dylai ymgeiswyr gynllunio eu prosiectau gan gadw'r amgylchedd a'r argyfwng hinsawdd mewn cof, ac ystyried elfennau fel teithio a sut maent yn defnyddio deunyddiau. Gallwch ddod o hyd i'n cyllid, adnoddau a chyfleoedd Cymru Werdd ar wefan Ffilm Cymru.

## Llinell amser ymgeisio

Mae'r broses ymgeisio a'r llinell amser fel a ganlyn:

**Cam 1** - Ymgeisydd yn cysylltu â Ffilm Cymru gyda datganiad o ddiddordeb (DD).

**Cam 2** - Ymgeisydd i drafod y prosiect gyda Ffilm Cymru a'n darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani.

**Cam 3** - Ffilm Cymru'n gwahodd yr ymgeisydd i gyflwyno cais cyflawn, neu i gadarnhau nad yw'r prosiect yn cwrdd â'r meini prawf. Bydd hyn yn digwydd o fewn 4 wythnos o gyflwyno'r DD.

**Cam 4** - Ymgeisydd i gwblhau cais cyflawn a'i gyflwyno i Ffilm Cymru.

**Cam 5** - Ffilm Cymru i benderfynu a ydynt am gefnogi neu wrthod y cais. Bydd hyn yn digwydd o fewn 6 wythnos o dderbyn y cais cyflawn.

Rydym yn argymell eich bod yn caniatáu 12 wythnos o'r pryd wnaethoch chi gysylltu â ni yn gyntaf i gwblhau'r broses ymgeisio a derbyn hysbysiad os yw eich prosiect wedi derbyn cyllid ai pheidio..

## Asesiad ac adborth

Asesir ceisiadau gan o leiaf dau o dîm Cynhyrchu Ffilm Cymru, gan gynnwys Rheolwr Cymru o  RWYDWAITH y BFI.

Gellir defnyddio aseswyr allanol yn dibynnu ar natur cyffredinol a faint o geisiadau byddwn wedi eu derbyn.

Asesir ceisiadau yn erbyn y Meini Prawf Asesu canlynol:

- Eglurder a pha mor gyraeddadwy yw canlyniadau arfaethedig y prosiect;
- Amrywiaeth a chynhwysoldeb y prosiect arfaethedig a'r cyfranogwyr, yn unol â Chynllun Gweithredu EDI Ffilm Cymru;

- Cryfderau'r tîm cyflawni arfaethedig, mewn perthynas â chynllun y prosiect;
- Dichonoldeb y prosiect, yn enwedig os bydd angen arian ychwanegol;
- Hyfywedd y prosiect ar gyfer cefnogaeth y Loteri Genedlaethol (gweler telerau'r Loteri sydd wedi eu hatodi;
- Balans cyffredinol ein buddsoddiadau.

Yn ystod y broses asesu byddwn hefyd yn ystyried sut mae'r ymgeisydd wedi rheoli unrhyw gyllid mae wedi dderbyn gan Ffilm Cymru o'r blaen, ble fo'n berthnasol.

Anelwn at wneud penderfyniad a hysbysu'r ymgeiswyr o fewn 6 wythnos o dderbyn y cais wedi'i gwblhau.

Sylwch os gwelwch yn dda, nad yw derbyn gwahoddiad i gyflwyno cais yn gwarantu eich bod yn derbyn cyllid.

Os yw eich cais yn aflwyddiannus bydd Ffilm Cymru yn darparu adborth i chi. Nid oes yn rhaid i'r ymeisydd weithredu'r adborth, ac nid yw mynd i'r afael â'r pwyntiau sydd yn yr adborth yn gwarantu y bydd unrhyw gais gennych yn y dyfodol yn llwyddiannus.

## Beth sy'n digwydd os byddaf yn derbyn yr arian?

Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr ffurfiol yn cynnig yr arian i chi. Mae Ffilm Cymru'n cadw'r hawl i gynnig llai na'r hyn ofynnwyd amdano, neu i newid dyraniad ein harian fesul eitem llinell, mewn ymgynghoriad â chi.

Gall Ffilm Cymru ddarparu cyflwyniadau a chyngor yn ogystal â chefnogaeth ariannol. Fel un sydd wedi derbyn arian o gronfa Connector, byddwch yn derbyn gwahoddiad i drafod eich cynllun ar gyfer y gweithgaredd yn fanylach gydag aelod o'n tîm. Byddwn yn

gweithio gyda chi i adnabod y llinell amser orau ar gyfer y prosiect, yn unol ag unrhyw weithgaredd Connector / Ffilm Cymru gydol y flwyddyn. Felly, rydym yn eich cynghori i beidio a chadarnhau llinell amser eich prosiect nag unrhyw ymrwymiad arall nes i chi dderbyn cyngor gan Ffilm Cymru.

## Llythyr o gynnig

Bydd eich dyfarniad yn cael ei gynnig mewn rhandaliadau yn erbyn cychwyn a chyflawni amcanion penodol.

Bydd y manylion am y rhandaliadau yn eich llythyr o gynnig, yn ogystal â llinell amser ar gyfer cyflawni'r gwaith ar gyfer eu derbyn. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau y byddwch yn cwrdd â'r dyddiadau hyn.

Fel rheol, bydd Ffilm Cymru yn tynnu'ch dyfarniad yn ôl ar ôl chwe mis os nad yw'r tynnu i lawr wedi cychwyn o fewn y cyfnod hwnnw.

## Cytundeb Ariannu

Unwaith i'ch llythyr o gynnig gael ei weithredu'n llawn, bydd gofyn i chi lunio cytundeb ffurf hir gyda Ffilm Cymru sy'n nodi telerau ac amodau llawn ein cyllid Connector.

Bydd yr amodau hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y canlynol:

- Darparu Memorandwm ac Erthyglau'ch Cwmni, os yw'n berthnasol;
- Darparu manylion cyfrif banc eich cwmni neu yn enw'r prosiect, yn hytrach na chyfrif banc personol;
- Darparu unrhyw ddogfennau yswiriant angenrheidiol sy'n ofynnol i gyflawni'r prosiect;
- Cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw gyllid partneriaeth neu gyfraniad mewn da (os yw'n berthnasol);

- Credydu priodol i RHWYDWAITH BFI Cymru gan gynnwys logo Ffilm Cymru a logo BFI y Loteri Genedlaethol;
- Cymeradwyaeth Ffilm Cymru dros unrhyw newidiadau i gynllun y prosiect a'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd;
- Casglu a darparu data amrywiaeth cyfranogwyr i'r templed a ddarperir gan Ffilm Cymru;
- Casglu data 'meincnod' ar lefel profiad eich cyfranogwyr a'u lefel dealltwriaeth o'r meysydd rydych chi'n mynd i'r afael â nhw ar ddechrau'r prosiect, i'w fesur yn erbyn y data terfynol a'r adborth gan y cyfranogwyr ar ddiwedd y prosiect, fel rhan o'ch adroddiad terfynol ar lwyddiant y prosiect yn erbyn ei ganlyniadau;
- Cyflwyno anfonebau sy'n tystio i wariant fel y'i contractiwyd;
- Cyflwyno o leiaf 3 delwedd cydraniad uchel o weithgaredd neu ddigwyddiad eich prosiect Connector;
- Darpariaethau Terfynu Safonol.

## Manylion cyswllt

Os oes gennych gwestiwn cysylltwch â:

Jude Lister, Rheolwr Cymru RHWYDWAITH y BFI
jude@ffilmcymruwales.com

Gwenfair Hawkins, Swyddog Datblygu
gwenfair@ffilmcymruwales.com

Gallwch hefyd gael gafael arnom drwy ffonio 07932 738434.

Os hoffech dderbyn y newyddion diweddaraf am gynlluniau ariannu, digwyddiadau hyfforddi a chyfleoedd eraill mae Ffilm Cymru'n eu cynnig gallwch danysgrifio i gael eich cynnwys ar ein rhestr bostio drwy ein gwefan.

*Atodiad - Arian Loteri CBC Ffilm Cymru Wales - Telerau Busnes Safonol*

Mae'r Telerau Busnes Safonol hyn (“Telerau Safonol”) yn rhan o, a dylid eu darllen ar y cyd ag unrhyw gytundeb cyllido (“Cytundeb Cyllido”) a gyhoeddwyd gan Ffilm Cymru Wales CBS (FfCW) mewn perthynas â'ch prosiect (“Prosiect”). Lle mae unrhyw wrthdaro rhwng y ddau yna mae'r Cytundeb Cyllido yn trechu.

1. Gall y gyfraith a rheoliadau'r Llywodraeth ar ddosbarthu cronfeydd y Loteri Genedlaethol newid. Felly mae FfCW yn cadw’r hawl i adolygu cynlluniau cyllido a / neu newid ei bolisïau, ei weithdrefnau a’i feini prawf asesu.

2. Ni fydd FfCW yn atebol am unrhyw golled, ddifrod neu gostau sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o:
   - Y broses ymgeisio;
   - Benderfyniad FfCW i beidio â rhoi dyfarniad i ymgeisydd; neu
   - Ddelio â chais.

3. Mae penderfyniadau FfCW ar geisiadau yn derfynol. Ni fydd apeliadau ffurfiol yn erbyn penderfyniadau yn cael eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd achos da i gredu na chadwyd at y gweithdrefnau ar gyfer prosesu'r cais na'u cymhwyso mewn modd sy'n rhagfarnu canlyniad y cais. Gellir gofyn am Bolisi Cwynion FfCW gan enquiries@ffilmcymruwales.com.

4. Ni fydd FfCW yn talu unrhyw arian nes eu bod wedi derbyn copi wedi'i weithredu'n llawn o'r Cytundeb Cyllido a hyd nes y bydd unrhyw amodau cynsail fel y'u diffinnir yn y Cytundeb Cyllido wedi'u bodloni.

5. Mae'n ofynnol i FfCW gyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau y mae'n eu derbyn a'r dyfarniadau a wneir: bydd y wybodaeth hon yn cynnwys enw'r ymgeisydd llwyddiannus, swm y dyfarniad, enw'r prosiect a manylion y prosiect.

6. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i aelodau'r cyhoedd ofyn am wybodaeth benodol sydd gan FfCW. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gedwir mewn perthynas â cheisiadau i raglenni a chynlluniau cyllido loteri FfCW. Felly os dewiswch wneud cais i FfCW gellir datgelu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

7. FfCW wedi ymrwymo i wella amrywiaeth a chynhwysiant y diwydiant sgrîn. Gofynnwn i bob tîm sy'n ymgeisio lenwi ffurflenni monitro amrywiaeth anhysbys ac i bob ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu cynlluniau amrywiaeth a chynhwysiant, y maent yn adrodd yn eu herbyn. Gall FfCW gyhoeddi unrhyw ddata amrywiaeth anhysbys a ddarperir gennych ar ddata blynyddol a gydgrynhowyd gyda data a dyfarniadau eraill, fel y manylir ymhellach yn ein Polisi Preifatrwydd. Mae FfCW yn mynnu bod unrhyw fesurau a gymerir gan ymgeiswyr i wella amrywiaeth a chynhwysiant eu gwaith yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

8. Mae FfCW yn ei gwneud yn ofynnol i dderbynwyr nawdd roi credyd i FfCW a RHWYDWAITH y BFI, gyda chefnogaeth y Loteri Genedlaethol yn yr holl ddeunyddiau llafar ac ysgrifenedig / cyhoeddedig sy'n ymwneud â'r Prosiect gan gynnwys defnyddio logos FfCW, RHWYDWAITH y BFI a’r Loteri Genedlaethol.

9. Bydd gan FfCW gymeradwyaeth dros holl Brif Elfennau'r Prosiect, fel y'i diffinnir yn y Cytundeb Cyllido. Ni ellir gwneud

newidiadau i unrhyw Brif Elfen heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan FfCW.

10. Gall FfCW ddal dyfarniad yn ôl neu ei adennill o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae'r cais wedi'i lenwi'n anonest neu â gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol am y sefydliad neu'r prosiect p'un ai'n fwriadol neu'n ddamweiniol;
- os yw'r rhai sy'n derbyn gwobrau yn gweithredu'n anonest neu'n esgeulus er anfantais i'r prosiect

AC

- unrhyw doriad arall fel y'i diffinnir yn y Cytundeb CyllidoAgreement.

11. Rhaid i'r rhai sy'n derbyn cyllid gyflwyno adroddiad cost terfynol i FfCW fel amod cyn i’r rhandaliad ariannol terfynol gael ei ryddhau.